

Allan o
Cyf. II._ MAWRTH—EBRILL, 1946. Rhif 6.

YR AMAETHWR

Amaethwyr Meirion

LLWYNOGOD — Pum Mil

(Rhoddwyd cryn sylw o bryd i dro i'r ymgyrchoedd yn erbyn y cadno ym Meirion. Da gennym gyhoeddi yn y rhifyn hwn erthygl gan Ysgrifennydd Mygedol Cymdeithas Difa Llwynogod Meirion yn ymdrin â gwaith y Gymdeithas. Dilynr gan ysgrif gan Brif Swyddog Adran y Pläau, 1; gwelir ddarfod i'r Weinyddiaeth roddi sylw cyson a, pharhaus i'r mater dan sylw.

Sieryd y ffeithiau a'r ffigyrau drostynt eu hunain.-Gol.).

' Y Pla yn y Plwyfi

Gan EDWIN JONES, M.Sc.

(Ysgrifennydd Cymdeithas Difa, Llwynogod Meirion).

ERS pam ffurfiwyd Cymdeithas Difa Llwynogod Meirion yng Ngorffennaf 1939, talwyd allan o Gronfa'r Gymdeithas yn agos i £400 am y 1,262 o llwynogod a laddwyd yn y gwahanol blwyfi hyd at ddiwedd 1945.

Am rai blynyddoedd cyn y rhyfel derbyniwyd cwynion cyson oddi wrth amaethwyr yr ardaloedd parthed cynnydd yn nifer y llwynogod ac am y colledion trymion mewn wyn a dofednod. Nid oedd cynlluniau swyddogol ar raddfa eang i gyfarfod a'r sefyllfa yn y dyddiau hynny; ac ar argymhelliad Pwyllgor Amaethyddol y Cyngor Sir galwyd Cynhadledd ar y 29ain o Fawrth, 1939, yn cynnwys cynrychiolwyr y Pwyllgor Amaethyddol, Comisiwn y Fforestydd, y tiffeddianwyr, a'r Cynghorau Plwyf. Penodwyd Is-bwyllgor i sefydlu Cronfa Sirol, ac ym mis Gorffennaf, 1939, mabwysiadwyd, ar ôl gohebiaeth a'r Cynghorau Plwyf, gynllun sirol, a rheolau parthed cyfraniadau o'r plwyfi ac o gyfeiriadau eraill, a thaliadau am y llwynogod a laddwyd yn y plwyfi oedd yn cefnogi'r Cynllun. Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd Medi 15, 1939, rhoddwyd manylion am wyn a dofednod a laddwyd y tymor hwnnw ym mhlwyfi Trawsfynydd a Llanfrothen, ac yr oedd yn amlwg fod y colledion yn drwm. Hysbyswyd fod y tir-feddiannwyr wedi cyfrannu £29: 8: 6, a'r Cynghorau Plwyf £32: 14: 9. Derbyniwyd £20 oddi wrth Gomisiwn y Fforestydd.

CODI I 15/- Y GYNFFON.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor yn flynyddol ers hynny, i dderbyn adroddiadau am nifer y llwynogod a laddwyd, am y taliadau am y cyfryw, am gyfraniadau'r plwyfi; ac adolygwyd y gwaith yn gyffredinol.

Yn 1940, ymunodd 13 o'r plwyfi, a daeth un plwyf ychwanegol i mewn yn 1941. Yn ystod 1942-43 cododd nifer y plwyfi i 20.

Yr oedd cynnydd mawr erbyn hyn yn nifer y llwynogod a laddwyd, ac yr oedd gan y Pwyllgor Amaethyddol (Cyfnod Rhyfel) erbyn hyn saith o swyddogion Adran y Pläau wrth y gwaith o ddifa.

Yng nghyfarfod blynyddol 1944, adroddwyd mai 15 o'r plwyfi oedd yn cyfrannu at gyllid y Gymdeithas. Penderfynwyd yn y cyfarfod hwn (Rhagfyr 8, 1944) i godi'r tal am llwynogod o 10/- i 15/-, ac am genawon o 5/- i 7/6. Yn y cyfarfod blynyddol am 1945, a gynhaliwyd ar Ionawr 18fed eleni, hysbyswyd fod 17 o blwyfi wedi cyfrannu. Lladwyd 95 o llwynogod a 103 o genawon yn ystod y flwyddyn. Talwyd allan £106: 17: 6.

Dyma dabl a ddengys gwrs y lladd o dan nawdd y Gymdeithas o'r dechreuad:—

Blwyddyn.	Llwynogod.	Llwynogesau.	Cenawon.	Cyfanrif
1940	44	24	113	181
1941	72	37	202	311
1942	79	39	103	221
1943	45	33	116	194
1944	41	31	85	157
1945	67	28	103	198
	348	192	722	1262

Nid oes wybodaeth parthed y llwynogod a laddwyd gan amaethwyr ac eraill yn y plwyfi sydd heb ymuno yn y Cynllun; eithr sieryd y ffigyrau uchod, a'r Ffigwr o 3450 a gyhoeddir gan Adran y Pläau, drostynt eu hunain. Pe buasai dim ond hanner y 1,262 a laddwyd o dan nawdd y Gymdeithas wedi cael byw ac epilio, prin y byddai'n bosibl i unrhyw ffermwr yn y Sir amaethu defaid yn llwyddiannus.

Carem apelio'n daer at amaethwyr ac at y Cynghorau plwyf ledled y Sir i roddi pob cefnogaeth i waith y Gymdeithas mewn ymdrech ac mewn cyfraniadau ariannol. Ni allwn fforddio llaesu dwylo.